

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) (“y Bil”) ei gyflwyno yn Senedd y DU, yn Nhŷ'r Arglwyddi, ar 8 Mehefin 2022. Gosodais [LCM ar y Bil fel y'i cyflwynwyd ar 18 Awst](#). Yna, gosodais [LCM atodol \(Memorandwm Rhif 2\)](#) ar y Bil ar 5 Hydref yn sgil gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried, ac y cytunwyd arnynt, yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.
3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 32 o welliannau pellach ar 11 Hydref i'w hystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, a gynhaliwyd ar 18 Hydref, a chefnogodd un gwelliant a osodwyd gan arglwydd arall. Mae pob un o'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac fe'u derbyniwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Yn ogystal, derbyniwyd un gwelliant anllywodraethol na chafodd gefnogaeth y Llywodraeth. Mae'r gwelliant hwn hefyd yn berthnasol at ddibenion RhS29.
4. Disgrifir effaith y gwelliannau a wnaed i'r Bil ym mharagraffau 18 i 34 isod.
5. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn yr LCM atodol hwn fel y'u nodir yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi a gyhoeddwyd ar 18 Hydref. Mae'r fersiwn hon o'r Bil i'w gweld yn: [Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#).
6. Ar 24 Hydref, ysgrifennais at y Llywydd i esbonio, oherwydd nad oedd Llywodraeth y DU wedi ein hysbysu am y gwelliannau tan ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, na fu'n bosibl gosod yr LCM atodol hwn o fewn terfyn amser arferol RhS29, sef pythefnos.

Amcan(ion) Polisi

7. Diben y Bil, fel y'i disgrifir, yw diwygio'r gyfundrefn rheoleiddio tai cymdeithasol yn Lloegr er mwyn ysgogi cryn newid yn ymddygiad landlordiaid fel eu bod yn canolbwyntio ar anghenion eu tenantiaid, a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.

8. Dyma amcanion craidd y Bil a ddatganwyd gan Lywodraeth y DU:
- Hwyluso cyfundrefn reoleiddio ragweithiol newydd o ran defnyddwyr ym maes tai cymdeithasol
 - Mireinio'r gyfundrefn rheoleiddio economaidd bresennol ar gyfer tai cymdeithasol
 - Cryfhau pwerau'r Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol ("y rheoleiddiwr") i orfodi'r gyfundrefn o ran defnyddwyr a'r gyfundrefn economaidd.

Crynodeb o'r Bil

9. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.
10. Mae'r Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod diogelwch a thryloywder yn chwarae rhan amlwg yn amcanion rheoleiddiwr tai cymdeithasol Lloegr ac maent yn rhoi pwerau newydd i'r rheoleiddiwr mewn perthynas â thryloywder a darparu gwybodaeth.
11. Mae'r Bil yn ceisio cynnal a mireinio rôl rheoleiddio economaidd bresennol y rheoleiddiwr, gan sicrhau bod darparwyr cofrestredig o Loegr yn cael eu llywodraethu'n dda a'u bod mewn sefyllfa ariannol hyfyw i ddiogelu cartrefi a buddsoddi mewn cyflenwad newydd. Yn ôl Llywodraeth y DU bydd hyn yn cefnogi'r gwaith y mae'r rheoleiddiwr eisoes yn ei wneud, drwy greu sefydlogrwydd a hyfywedd parhaus yn y sector drwy reoleiddio economaidd cadarn. Y nod fydd annog buddsoddi parhaus yn y sector, drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu cartrefi newydd, a diogelu tenantiaid rhag risgiau ansolfedd darparwyr.
12. Mae'r Bil yn ceisio cryfhau rôl y rheoleiddiwr drwy roi pwerau gorfodi newydd iddo sy'n sicrhau y gall ymyrryd yn effeithiol pan fo angen, ac mae'r darpariaethau'n ceisio annog landlordiaid i gynnal safonau, osgoi bygythiad camau gorfodi, a sicrhau bod gan y rheoleiddiwr yr adnoddau priodol i ymdrin ag achosion o beidio â chydymffurfio â'r safonau.
13. Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ("Deddf 2008"). Mae Rhan 2 o Ddeddf 2008 yn nodi'r gyfundrefn reoleiddio sy'n gymwys i dai cymdeithasol a ddarperir gan gyrff yn Lloegr, ac o'r herwydd dim ond i raddau bach iawn y mae'n gymwys yn ymarferol yng Nghymru. Ond mae darparwyr cofrestredig o Loegr yn gyfrifol am rywfaint o'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Er na fydd darpariaethau'r Bil yn cael fawr o effaith o ystyried y nifer bach o ddarparwyr cofrestredig o Loegr sydd â stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Ddeddf 2008 serch hynny yn ymwneud â thai, sy'n fater datganoledig, i'r graddau y maent yn ymwneud â darparwyr cofrestredig sydd â stoc dai yng Nghymru, ac maent felly o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a ddaeth i law gan y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol yn Lloegr yn cadarnhau bod 18 o ddarparwyr cofrestredig

yn berchen ar tua 530 o gartrefi/unedau yng Nghymru, ac yn eu rheoli, a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau a gynigir yn y Bil. At ei gilydd, darpariaeth anghenion arbennig gyda rhywfaint o anghenion cyffredinol a rhanberchnogaeth yw'r rhain.

14. Ceir rhagor o wybodaeth am y Bil yn yr [LCM cyntaf a osodwyd ar 18 Awst](#).
15. Dygodd Llywodraeth y DU 42 o welliannau ymlaen a dderbyniwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, ac fe'u trafodir yn fanwl yn yr LCM atodol (Memorandwm Rhif 2), a osodwyd ar 5 Hydref. Roedd Memorandwm Rhif 2 yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil diwygiedig. Yn gryno, gwnaed y gwelliannau mwyaf arwyddocaol yn y meysydd canlynol:
 - Gofyniad newydd bod rhaid i ddarparwyr hysbysu'r rheoleiddiwr pan fo rheolaeth y sefydliad yn newid mewn ffyrdd penodol;
 - Newidiadau i allu'r rheoleiddiwr i godi ffioedd i dalu costau;
 - Diwygiadau i ddyletswyddau Gwasanaeth yr Ombwdsmon Tai a chodi ffioedd ganddo;
 - Newidiadau i bŵer y rheoleiddiwr i benodi swyddog i fwrdd darparwr cofrestredig;
 - Newidiadau i'r seiliau dros ddefnyddio pwerau gorfodi.

Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) a osodwyd ar 5 Hydref

16. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 32 o welliannau pellach ar 11 Hydref, a chefnogodd welliant pellach a osodwyd i'w ystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi.
17. Cytunwyd ar yr holl welliannau a gyflwynwyd neu a gefnogwyd gan Lywodraeth y DU yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 18 Hydref. Yn ogystal, cytunwyd hefyd ar un o'r gwelliannau anllywodraethol a gyflwynwyd (roedd y gwelliant hwn yn cyflwyno cymal newydd 24), er nad oedd Llywodraeth y DU yn ei gefnogi. Mae'r holl welliannau yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac maent yn destun yr LCM atodol hwn (Memorandwm Rhif 3). Mae Atodiad A yn cynnwys tabl sy'n nodi'r newidiadau i rifau'r cymalau yn sgil y gwelliannau a wnaed ym mhob cyfnod perthnasol o hynt y Bil hyd yma.

Gwelliannau a gyflwynwyd ac a gefnogwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, a gwelliant a wnaed yn yr un cyfnod, y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

18. Mae'r holl welliannau a ddisgrifir isod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (tai, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol i ddarparwr cofrestredig o Loegr sydd â stoc dai yng Nghymru), ac felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar eu cyfer.

Cymal 1 – Amcanion sylfaenol

19. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 92K o Ddeddf 2008 – sy'n nodi'r amcanion sylfaenol sy'n llywio dull y rheoleiddiwr o reoleiddio tai cymdeithasol – fel bod rhaid i'r rheoleiddiwr gefnogi'r gwaith o ddarparu tai sy'n ddiogel yn ogystal â'r hyn a ddisgwylir eisoes, a bod rhaid i'r rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig fod yn dryloyw gyda'u tenantiaid. Diwygiwyd y cymal i ychwanegu bod yn effeithlon o ran ynni at yr amcanion a nodir yn yr adran honno. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 1 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 7 (cymal 6 fel y'i cyflwynwyd) – Meini prawf cofrestru

20. Mae cymal 7 yn diwygio adran 112 (cymhwysra ar gyfer cofrestru gwirfoddol) o Ddeddf 2008, sy'n galluogi'r rheoleiddiwr i osod meini prawf sy'n pennu'r trefniadau ariannol, y trefniadau cyfansoddiadol a'r trefniadau rheoli eraill y mae rhaid i bersonau newydd sy'n cofrestru eu bodloni. Mae'r cymal hwn wedi ei ddiwygio er mwyn ychwanegu gofyniad pellach at y rhestr o amodau y mae rhaid i newydd-ddyfodiad eu bodloni, yn sgil ychwanegu safonau'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad gan gymal 21 o'r Bil. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 6 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 15 (cymal 14 fel y'i cyflwynwyd) – Gofynion hysbysu: estyn i sefydliadau sy'n gwneud elw

21. Mae cymal 15 yn estyn i ddarparwyr cofrestredig sy'n gwneud elw ofynion a nodir yn Neddf 2008 i hysbysu'r rheoleiddiwr am wahanol ddigwyddiadau ailstrwythuro a diddymu. Diwygiwyd y cymal hwn i ddileu dwy is-adran o ganlyniad i ychwanegu cymalau newydd 16 (Trosi cwmni yn gymdeithas gofrestrdig: parhad cofrestriad) a 17 (Ailstrwythuro cymdeithasau cofrestredig) at y Bil yn y cyfnod Adrodd. Gan fy mod yn argymhell bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau newydd 16 a 17, ac oherwydd imi argymhell bod ei angen ar gyfer cymal 14 fel y'i cyflwynwyd, oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, rwy'n argymhell hefyd fod ei angen ar gyfer y cymal fel y mae bellach wedi ei ddiwygio.

Cymal 16 – Cymal newydd – Trosi cwmni yn gymdeithas gofrestrdig: parhad cofrestriad

22. Mae'r cymal newydd hwn yn diwygio adran 161 o Ddeddf 2008 i gael gwared ar y gofyniad i'r rheoleiddiwr benderfynu a yw ddarparwyr sy'n trosi o fod yn gwmni i fod yn gymdeithas gofrestrdig yn gymwys i gofrestru â'r

rheoleiddiwr, fel bod y cofrestriad yn barhaus a bod y rhwymedigaethau ar y darparwr hefyd yn parhau ar ôl trosi. Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer. Rwy'n argymhell rhoi'r cydsyniad hwnnw.

Cymal 17 – Cymal newydd – Ailstrwythuro cymdeithasau cofrestredig: cofrestru corff olynol

23. Mae'r cymal newydd hwn yn hepgor is-adrannau (5) i (8) o adran 163 o Ddeddf 2008 ac yn mewnosod adran newydd ar ôl adran 163 i wneud darpariaeth ar gyfer yr hyn y mae'n ofynnol i'r rheoleiddiwr ei wneud mewn sefyllfa pan fo cymdeithas gofrestredig yn cael ei hailstrwythuro a hynny'n arwain at greu corff newydd neu at drosglwyddo ymrwymadau i gorff nad yw'n ddarparwr cofrestredig. Mae'r adran newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr benderfynu a ddylid cofrestru'r corff ai peidio ac yn disgrifio sut y dylid trin y corff nes y daw'r penderfyniad hwnnw. Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer. Rwy'n argymhell rhoi'r cydsyniad hwnnw.

Cymal 18 (cymal 15 fel y'i cyflwynwyd) – Trosglwyddo ymrwymadau o gymdeithas gofrestredig

24. Roedd y cymal hwn, yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf 2008 gan greu gofyniad newydd o ran hysbysu sy'n gymwys i ddarparwyr cofrestredig sy'n gwmnïau ac yn gymdeithasau cofrestredig. Mae'r darpariaethau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig o'r fath hysbysu'r rheoleiddiwr os yw cymdeithas gofrestredig nad yw'n ddarparwr cofrestredig yn pasio penderfyniad i drosglwyddo ei hymrwymadau i'r darparwr. Mae'r cymal hwn wedi ei ddiwygio o ganlyniad i fewnosod cymal newydd 17. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 15 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 21 – Cymal newydd – Safonau'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad

25. Mae'r cymal hwn yn cyflwyno adran newydd i Ddeddf 2008 sy'n rhoi pŵer ychwanegol i'r rheoleiddiwr i osod safonau'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad darparwyr cofrestredig. Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer. Rwy'n argymhell rhoi'r cydsyniad hwnnw.

Cymal 22 (cymal 17 fel y'i cyflwynwyd a chymal 19 fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi) – Safonau'n ymwneud â gwybodaeth a thryloywder

26. Mae'r cymal hwn yn ychwanegu adran newydd at Ddeddf 2008 sy'n caniatáu i'r rheoleiddiwr osod safonau ar gyfer darparwyr cofrestredig ynghylch darparu gwybodaeth a thryloywder ac yn nodi enghreifftiau o bethau y gallai'r safonau eu cynnwys. Mae'r cymal hwn hefyd yn diwygio Deddf 2008 er mwyn darparu y bydd methu â chyrraedd safon a osodir o dan adran newydd 194A yn sail dros arfer amryw o bwerau gorfodi'r rheoleiddiwr. Diwygiwyd y cymal hwn yn ganlyniadol yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ac mae wedi'i ddiwygio ymhellach yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi o ganlyniad i fewnosod cymal newydd 21, ac i welliannau a wnaed i Atodlen 5. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 17 fel y'i cyflwynwyd ac fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 24 – Cymal newydd – Safonau'n ymwneud â'r galw am ynni

27. Cytunwyd ar y gwelliant anllywodraethol hwn i'r Bil yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r cymal newydd hwn yn diwygio adran 193 o Ddeddf 2008 sy'n ymwneud â safonau'n ymwneud â materion defnyddwyr, gan ychwanegu safon sy'n ymwneud â'r galw am ynni a nodi gofyniad newydd ar y rheoleiddiwr i roi sylw i strategaeth Llywodraeth y DU ar leihau'r galw am ynni ar gyfer eiddo tai cymdeithasol, y mae'n ofynnol hefyd o dan y cymal hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol ei chyhoeddi. Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer. Rwy'n argymhell rhoi'r cydsyniad hwnnw.

Cymal 25 (cymal 19 fel y'i cyflwynwyd) – Cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol

28. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 197 o Ddeddf 2008 er mwyn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi cyfarwyddyd i'r rheoleiddiwr mewn perthynas â safonau, gan ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gydymffurfio â rheolau ynghylch darparu gwybodaeth i'w tenantiaid ynghylch rheoli eu tai. Gwnaed gwelliannau i'r cymal hwn o ganlyniad i fewnosod cymal newydd 21 ar safonau'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 19 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 27 (cymal 21 fel y'i cyflwynwyd a chymal 23 fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi) – Monitro perfformiad

29. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 198c o'r Ddeddf, sy'n rhoi pŵer i'r rheoleiddiwr i gyfarwyddo darparwyr cofrestredig i gasglu, prosesu a chyhoeddi gwybodaeth am eu perfformiad mewn perthynas â safonau a osodwyd gan y rheoleiddiwr sy'n gymwys iddynt. Diwygiwyd y cymal hwn yn ganlyniadol yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, ac mae wedi'i ddiwygio ymhellach yn y cyfnod Adrodd o ganlyniad i fewnosod cymal newydd 21 ar safonau'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 21 fel y'i cyflwynwyd, ac fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 28 (cymal 22 fel y'i cyflwynwyd) – Arolygon

30. Mae'r cymal hwn yn ymwneud ag arolygon ac mae'n diwygio adrannau 199 a 200 o Ddeddf 2008 ac yn mewnosod adrannau newydd 199A a 199B yn y Ddeddf honno. Diwygiwyd y cymal hwn i estyn y rhybudd y mae'n ofynnol ei roi i feddianwyr cyn cynnal arolwg, ac i wneud newidiadau pellach sy'n ganlyniadol ar y gwelliant hwnnw. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 22 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 29 – Cymal newydd – Cynllun arolygu

31. Mae'r cymal newydd hwn yn mewnosod adran newydd 201A yn Neddf 2008, i osod dyletswyddau ar y rheoleiddiwr i lunio, cyhoeddi, gweithredu a pharhau i ddiweddarau cynllun i gynnal arolygiadau rheolaidd ac untro o ddarparwyr cofrestredig tai cymdeithasol. Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer. Rwy'n argymhell rhoi'r cydsyniad hwnnw.

Cymal 30 (cymal 23 fel y'i cyflwynwyd a chymal 25 fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi) – Cynlluniau gwella perfformiad

32. Mae cymal 30 yn ychwanegu adrannau newydd at Ddeddf 2008 i alluogi'r rheoleiddiwr i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwr cofrestredig tai cymdeithasol lunio cynllun gwella perfformiad a'i roi ar waith, a thrwy hynny ganiatáu i'r rheoleiddiwr ddwyn darparwr cofrestredig i gyfrif mewn perthynas â materion sydd wedi eu nodi. Diwygiwyd y cymal hwn yn ganlyniadol yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Gwnaed gwelliannau pellach i'r cymal hwn o ganlyniad i fewnosod cymal newydd 21 ar safonau'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 23 fel y'i cyflwynwyd ac fel

y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Cymal 31 (cymal 24 fel y'i cyflwynwyd) – Camau unioni brys

33. Mae cymal 31 yn ychwanegu adrannau 225A i 225H ynghylch camau unioni brys at Ddeddf 2008. Gwnaed gwelliannau i'r cymal hwn i'w gwneud yn glir mai dim ond os yw'r annedd wedi ei meddiannu y mae angen rhoi hysbysiad mynediad, i egluro nad oes angen i'r person awdurdodedig sy'n rhoi'r hysbysiad cyn mynediad fod yr un person awdurdodedig â'r sawl sy'n arfer y pŵer i fynd i'r annedd, i alluogi'r rhai sydd â hawl i gael hysbysiad cyn mynediad i gydsynio i fynediad cynnar, ac at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 24 fel y'i cyflwynwyd oherwydd ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Atodlen 5 (ac eithrio paragraff 48)

34. Mae Atodlen 5 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol. Mae Rhan 1 o Atodlen 5 yn diwygio Deddf 2008. Gwnaed gwelliannau i Atodlen 5 yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae diwygiadau pellach wedi eu gwneud i'r Atodlen hon er mwyn ei gwneud yn glir: bod pŵer y rheoleiddiwr i osod safonau ar gyfer darparwyr cofrestredig yn rychwantu effeithlonrwydd ynni'r llety, a chyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â thai cymdeithasol; y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r rheoleiddiwr ynghylch gosod safonau ar effeithlonrwydd ynni; a bod dyletswydd y rheoleiddiwr i ymgynghori â chyrff sy'n cynrychioli tenantiaid yn cyfeirio at gyrff sy'n cynrychioli tenantiaid tai cymdeithasol yn benodol. Gwnaed diwygiadau hefyd o ganlyniad i'r newidiadau a wneir yn yr Atodlen hon, a'r rhai a wneir gan gymalau 21, 22 a 26. Argymhellais fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Atodlen 5 (ac eithrio'r ddarpariaeth sy'n diwygio Deddf Diwygio Lesddaliad (Rhent Daear) 2022) fel y'i cyflwynwyd ac fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi oherwydd ei bod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai, ac rwy'n parhau i fod o'r farn hon yn dilyn y gwelliannau i'r Bil.

Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad

35. Mewn llythyrau gweinidogol a ddaeth i law mewn cyfnodau cynharach o hynt y Bil (fel y nodir yn yr LCM ar y Bil fel y'i cyflwynwyd ac ym Memorandwm Rhif 2) mynegwyd barn Llywodraeth y DU fod angen LCM ar gyfer rhai o'r cymalau yn y Bil sy'n gwneud darpariaethau o ran tai, sy'n fater datganoledig. Mae'r nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn

nodi bod y Bil yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â mater datganoledig yng Nghymru, ac felly mae angen LCM a gofynnwyd am un.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

36. Fel y nodir yn yr LCM gwreiddiol a Memorandwm Rhif 2 ar y Bil, cymharol ychydig (tua 530) o eiddo yng Nghymru y mae darparwyr cofrestredig o Loegr a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddio a ddisgrifir gan y Bil yn berchen arno a/neu'n ei reoli.
37. Y bwriad at ei gilydd yw y bydd y Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yn arwain at wella perfformiad darparwyr cofrestredig, yn cryfhau hawliau tenantiaid ac yn ysgogi newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, ac yn sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Bydd hyn yn arwain at newid cadarnhaol i holl denantiaid darparwyr cofrestredig o Loegr, gan gynnwys y tenantiaid hynny sy'n byw mewn eiddo yng Nghymru y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt, ac felly rwy'n parhau'n fodlon y dylid gwneud y darpariaethau hyn mewn Bil gan Senedd y DU.

Goblygiadau Ariannol

38. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau ariannol hyd yma pe bai'r darpariaethau hyn yn cael eu cymhwysu yng Nghymru.

Casgliad

39. Fel y nodir uchod, rwyf o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y gwelliannau a wneir i gymalau 1, 7, 15, 18, 22, 25, 27, 28, 30, 31 ac Atodlen 5, ac ar gyfer ychwanegu cymalau newydd 16, 17, 21, 24 a 29, sydd i gyd yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (i'r graddau y maent yn berthnasol i ddarparwr cofrestredig o Loegr sydd â stoc dai yng Nghymru).
40. Fel y nodir yn fy LCM gwreiddiol a Memorandwm Rhif 2 ar y Bil, rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU o ystyried y niferoedd bach o'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru y mae darparwyr cofrestredig yn Lloegr yn berchen arnynt neu'n eu rheoli. At hynny, mae'r cynigion yn y Bil yn ei gyfanrwydd, ac yn y gwelliannau perthnasol a gyflwynwyd ac y cytunwyd arnynt yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yn gadarnhaol i'r tenantiaid hynny yng Nghymru, gan eu bod yn diwygio'r gyfundrefn reoleiddio ym maes tai cymdeithasol drwy gryfhau hawliau tenantiaid ac ysgogi newid yn ymddygiad

landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.

41. Rwyf felly'n argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
17 Tachwedd 2022

Atodiad A – Tabl yn cymharu fersiynau o’r Bil

Y Bil fel y’i cyflwynwyd yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 8 Mehefin:

[Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Y Bil fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Arglwyddi ac a gyhoeddwyd ar 6 Medi:

[Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Y Bil fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ’r Arglwyddi ac a gyhoeddwyd ar 18 Hydref:

[Y Bil Tai Cymdeithasol \(Rheoleiddio\) \[HL\] – Biliau Seneddol – Senedd y DU](#)

Rhif y cymal wedi ei gyflwyno	Disgrifiad o’r cymal	Fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Arglwyddi	Fel y’i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ’r Arglwyddi
1	Amcanion sylfaenol	1	1
2	Panel cyngori	2	2
3	Casglu gwybodaeth	3	3
	Pŵer i godi ffioedd	4	4
4	Y gydberthynas rhwng y rheoleiddiwr a’r ombwdsmon tai	5	5
5	Ystyr “English body”	6	6
6	Meini prawf cofrestru	7	7
7	Dynodi	8	8
8	Dadgofrestru	9	9
9	Penodi arweinydd iechyd a diogelwch gan ddarparwr cofrestredig	10	10
10	Safonau diogelwch trydanol	11	11
11	Moratoriwm ar waredu tir	12	12
12	Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig	13	13
13	Ansolfedd darparwyr cofrestredig	14	14
14	Gofynion hysbysu: estyn i sefydliadau sy’n gwneud elw	15	15
	Trosi cwmni’n gymdeithas		16

Rhif y cymal wedi ei gyflwyno	Disgrifiad o'r cymal	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi
	gofrestredig: parhad cofrestriad		
	Ailstrwythuro cymdeithasau cofrestredig		17
15	Trosglwyddo ymrwymadau o gymdeithas gofrestredig	16	18
16	Hysbysu am newidiadau cyfansoddiadol	17	19
	Hysbysu am newid rheolaeth	18	20
	Safonau'n ymwneud â chymhwysedd ac ymddygiad		21
17	Safonau'n ymwneud â gwybodaeth a thryloywder	19	22
18	Cod ymarfer: safonau'n ymwneud â materion defnyddwyr	20	23
	Safonau'n ymwneud â'r galw am ynni		24
19	Cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol	21	25
20	Pwerau ymyrryd: dileu'r prawf niwed difrifol	Wedi'i ddileu o'r Bil	
	Methu â chyrraedd y safonau: arfer pwerau ymyrryd	22	26
21	Monitro perfformiad	23	27
22	Arolygon	24	28
	Cynllun Arolygu		29
23	Cynlluniau gwella perfformiad	25	30
24	Camau unioni brys	26	31
25	Estyn pwerau i elusennau nad ydynt	27	32

Rhif y cymal wedi ei gyflwyno	Disgrifiad o'r cymal	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi
	wedi cael cymorth cyhoeddus		
26	Hysbysu'r Comisiwn Elusennau pan arferir pwerau gorfodi	28	33
27	Arfer pwerau: tir â buddiant y Goron neu fuddiant y Ddugiaeth	29	34
28	Pwerau rheoleiddio a gorfodi: diwygiadau pellach	30	35
29	Gadael y stoc tai cymdeithasol: diwedd les	31	36
	Ystyr "subsidiary"	32	37
30	Apelau	33	38
31	Y cynllun Ombwdsmon Tai	34	39
32	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a darpariaeth ddarfodol	35	40
33	Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol	36	41
34	Rhychwant	37	42
35	Cychwyn	38	43
36	Enw byr	39	44
Atodlen 1	Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig	Atodlen 1	Atodlen 1
Rhan 1	Diwygio Deddf Tai a Chynllunio 2016	Rhan 1	Rhan 1
Rhan 2	Diwygio Deddf Tai ac Adfywio 2008	Rhan 2	Rhan 2
Atodlen 2	Diwygiadau i gyfyngiadau ar	Atodlen 2	Atodlen 2

Rhif y cymal wedi ei gyflwyno	Disgrifiad o'r cymal	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi	Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi
	weithdrefnau ansolfedd		
Atodlen 3	Pwerau rheoleiddio a gorfodi	Atodlen 3	Atodlen 3
Atodlen 4	Apelau	Atodlen 4	Atodlen 4
Atodlen 5	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a darpariaeth ddarfodol	Atodlen 5	Atodlen 5
Rhan 1	Deddf Tai ac Adfywio 2008	Rhan 1	Rhan 1
Rhan 2	Deddfau eraill	Rhan 2	Rhan 2
Rhan 3	Darpariaeth ddarfodol	Wedi'i ddileu o'r Bil	